# Llais yr Andes

Pris: $7

Papur Bro Yr Andes — Awst 2013

## Dymuno'n dda

Aeth criw Ysgol Gymraeg Trevelin, yn diwtoriaid, yn fyfyrwyr ac yn blant, allan am bryd o fwyd cyn y gwyliau er mwyn dymuno'n dda i Sara, Estela ac Ivana, y dair sydd bellach yng Nghymru yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar ôl llond bol o bitsa, roedd hi'n amser profi gwybodaeth gyffredinol pawb! Ar ôl ugain cwestiwn amrywiol iawn, Mary a Sara Green ddaeth i'r brig a nhw enillodd focs enfawr o siocledi. Chwarae teg i'r ddwy am rannu'r cyfan gyda gweddill y cystadleuwyr!

## Noson Siôn a Siân Esquel

Cafwyd noson llawn sbort a sbri beth amser yn ôl wrth i ni ddarganfod faint mae cyplau Esquel yn ei wybod am ei gilydd. Diolch i Luis a Soraya a Marcelo a Glenda am fod mor barod i gymryd rhan ac ymuno'n yr hwyl. Marcelo a Glenda gafodd y nifer fwyaf o atebion a oedd yn cyfateb ac felly nhw wnaeth ennill y siocled blasus o Dulzuras de Esquel!!! Noson Siôn a Siân Trevelin fydd nesaf!













Mae'r rhifyn hwn dan ei sang â holl fwrlwm Esquel a Threvelin!


Holi Soraya—tud. 4

Newyddion o'r dosbarthiadau—tud. 8

Cornel y plant—tud. 9 .............................. a llawer llawer mwy!!


Eluned Owena Evans

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf at Eluned - eluned@menterpatagonia.org neu elunedowena@hotmail.com erbyn canol mis Hydref.

## Ymweliadau

Dw i wrth fy modd yn ymweld â phobl yr ardal gydag Isaías – cael sgwrs am hyn a'r llall, rhoi'r byd yn ei le a chlywed eu hanesion, a hynny mewn Cymraeg mor loyw. Edrychaf ymlaen at ymweld â mwy o bobl yn ystod y misoedd nesaf.






## Capel Bethel Trevelin a Chapel Seion Esquel





*Oedfaon* - Cafwyd oedfa yn Nghapel Bethel Trevelin ac yng Nghapel Seion Esquel ym mis Mai a Mehefin. Cafodd bawb gyfle i fwynhau te a sgwrs gyda'i gilydd yn festri Capel Bethel ar ôl y gwasanaeth. Yn yr un modd, bydd te yn y Ganolfan yn dilyn yr oedfa nesaf yn Nghapel Seion ar y 11eg o Awst.

## Dawnsio Gwerin





Cynhelir Clwb Dawnsio Gwerin hynod lwyddiannus bob nos Lun a bob nos Fawrth dan arweiniad Jessica Jones yn Ysgol y Felin, Trevelin. Mae deg o blant yn dawnsio bob nos Lun rhwng 7:30 ac 8:30 a thro'r oedolion yw hi ar nos Fawrth. Mae'r oedolion wrthi'n ymarfer 'Aberdaugleddau' ac 'Hoffedd ap Hywel' ar hyn o bryd a'r plant yn dawnsio 'Cylch Sircasian'. Diolch i Jessica am ein hyfforddi.

## Cyngerdd Hogia'r Wilber



Ar ddydd Gwener yr 17 o Fai cawsom wledd o gyngerdd yn neuadd y dref yma yn Nhrevelin.
Daeth Hogia'r Wilber pob cam o'r Gaiman i'n diddori a'n swyno gyda chaneuon o bob math yn Gymraeg a Sbaeneg. Caneuon gwerin Cymru a'r Ariannin oeddynt yn bennaf, er mai amrywiol iawn oedd eu dewis ar y noson arbennig yma, rhai yn unawdau a deuawdau hefyd.
Mae pawb sydd wedi mynychu ein heisteddfodau yn nabod ac yn gwerthfawrogi lleisiau swynol a doniau arbennig pob un o'r Hogia fel unawdwyr. Felly does dim syndod eu bod, pan yn canu efo'i gilydd fel pedwarawd , yn creu y fath argraff ar y gynulleidfa.
Proffesiynol iawn oedd y perfformiad ar lwyfan y Salón Central. Mae Billy Hughes y wreiddiol o Esquel, tra bod Hector Ariel Macdonald, Marcelo Griffiths a Roberto Jones o'r Dyffryn.

Pleser oedd gwrando ar bob un o'r caneuon, a does dim syndod fod y gynulleidfa wedi gofyn am "encôr" ar y diwedd!

Diolch Hogia! A phob llwyddiant efo'r cryno ddisg newydd.

*Mary Green*

## Gorfoledd yn Nhrevelin!

**("Y Drafod"/Hydref 2013-Rhif24-)**

Braf yw cael cyhoeddi yn Y Drafod ddwy deyrnged a dalwyd i Isaías Grandis pan gafodd wobr Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru,
Bro Morgannwg 2012:

***"Mae campau dy eiriau di'n orfoledd yn Nhrefelin"***

Tudur Dylan Jones

(Prifardd Cymru)



***Isaías***


***Ei gof yn esgor ar gyfoeth- y Paith***
***A'r "pethe" yn chwilboeth,***
***Ar dân heddiw a thrannoeth,***
***Archentwr a dysgwr doeth.***

Cerwyn Davies

(Cadeirydd Cymdeithas Waldo, Cymru)

Faint ydych chi'n ei wybod am Gymru? Bydd cwestiynau ym mhob rhifyn. Mae'r atebion ar waelod tudalen 7!

1. Pa sir yw'r fwyaf yng Nghymru o ran tirwedd?
2. Ym mhle y mae'r tŷ lleiaf ym Mhrydain?
3. Llanbadarn Gaerog oedd enw'r dref hon ar un adeg. Beth yw ei henw nawr?
4. Enwch y parciau cenedlaethol sydd yng Nghymru.
5. Ar ba ddiwrnod y mae'r Cadeirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol?



# Holi Soraya Jara Williams



Soraya ydw i. Rydw i wedi byw yn Esquel trwy fy mywyd i gyd.

Ces i blentyndod neis gyda llawer o hwyl. Rydw i´n cofio pan o´n i´n fach holais i lawer am fy nhaid oedd mewn llun. Roedd mam yn dweud bod e´n arfer siarad Cymraeg…a roedd fy nghwestiwn yr un peth pob tro: wyt ti´n siarad Cymraeg? Sut iaith ydy'r Gymraeg? A phob tro yr un ateb: nag ydw, dw i ddim yn siarad Cymraeg … ond mae e'n swnio yn rhyfedd….

Pan o'n i'n 20 oed fwy neu lai fe ddaeth athrawes o Gymru o´r enw Hazel Charles Evans a ches i wahoddiad i ddysgu'r iaith. Wrth gwrs es i i´r dosbarth a theimlais i fel petawn i mewn breuddwyd arbennig. Ers hynny dw i wedi astudio'r iaith a dw i´n trio cadw hyn fel rhywbeth gwerthfawr. Dyna pam mod i´n gweithio fel tiwtor ers blynyddoedd.

Nid dim ond ieithoedd dw i´n hoffi ond darllen, dawnsio, canu ac ati. Nofelau hanesyddol ydy fy hoff lyfrau, er enghraifft: The Eagle and the Raven gan Pauline Gedge neu The Bonesetter´s daughter gan Amy Tan.

Dw i´n licio gwrando ar bob math o gerddoriaeth o roc tan gerddoriaeth ethnig. Hefyd, rydw i´n astudio dawns Ysbaenaidd achos hoffwn i ei dysgu rhywbryd a dw i´n dwlu arno.

Eleni bydd pedwerydd blwyddyn fy mhriodas gyda Luis a thrydydd blwyddyn fy mab bach Rhys. Fe ydy fy haul a fy lleuad. Mae e´n portreadu popeth sy´n dda yn y byd i ni. Ydyn, mae Luis a fi yn hapus i fod yn rhieni. Mae'r ddau ohonon â gobaith mawr amdano, oherwydd plant ydy dyfodol y diwylliant a'r iaith.

## Gwirfoddolwraig yn Yr Andes



Fy enw llawn i ydi Catrin Nia Thomas a dwi'n dod yn wreiddiol o Gorseinon yn Abertawe. Gadawais i Abertawe i fynychu prifysgol Loughborough ble astudiais i 'Silversmithing and Jewellery Design'. Ar ôl gorffen symudais i fyw i Swydd Efrog i weithio i gwmni yn dylunio gemwaith. Ar ôl dwy flynedd symudais i weithio yn Hatton Garden yn Llundain i ddefnyddio CAD ( rhaglen cyfrifiadurol) i ddylunio gemwaith. Dwi am flynyddoedd wedi moen dysgu a dwi newydd orffen fy PGCE ac yn edrych mlaen at ddysgu plant blwyddyn dau yn mis Medi mewn ysgol yn agos i Tunbridge Wells ble dwi'n byw gyda fy sboner. Dwi dal yn dwlu ar wneud gemwaith a gwahanol grefftau yn fy amser sbar....sydd yn eitha prin!

## Mwynhau gwyliau`r gaeaf.............



Wnes i dreulio fy ngwyliau gaeaf yn nhalaith Córdoba efo Eluned. Deithion ni yn y car efo ein ffrind Mervin Morgan. Wnaethon ni aros yn nhŷ fy modryb yn Villa Maria, y dre lle ces i fy ngeni.Cawson ni sawl gwledd efo fy mherthnasau – canelones, calabaza rellena, humita a digon o alfajores.

Aethon ni am ddiwrnod i brifddinas y dalaith sef Córdoba Capital i weld y Brifysgol hyna yn yr Ariannin, yr Eglwys Gadeiriol a'r adeiladau Jesuítas. Cawson ni gyfle hefyd i gwrdd â'n cyfaill Christine Jones am ddiod yn El Paseo del Buen Pastor yng nghysgod Eglwys Los Capuchinos.

Treulion ni ddiwrnod braf a phoeth yn Las Sierras gan ymweld ag Embalse, Santa Rosa, Villa General Belgrano a Los Reartes. Cawson ni selva negra a strudel blasus iawn yn Villa General Belgrano ac yn hwyrach yn y prynhawn, aethon ni i Dŷ Te Cymreig Draig Las. Roedd hi'n braf iawn cael cyfle i sgwrsio'n y Gymraeg â Federico Brozzi.

Roedd yn wyliau i'w gofio achos wnaethon ni ddyweddïo yn Villa Maria, ac fe fyddwn ni'n priodi flwyddyn nesaf.

*Isaías Grandis*

## Arholiadau 2013

Mae myfyrwyr yng Nghymru weithiau yn cwyno os oes rhaid iddyn nhw deithio am hanner awr i sefyll arholiad – wel mae myfyrwyr yr Ariannin yn gryfach! Daeth 12 o bobl i Ganolfan Esquel i sefyll yr arholiad MYNEDIAD (i bobl sy wedi gorffen Unedau 1 – 30 o'r cwrs Wlpan) ac aeth 3 arall i Ysgol Gerdd y Gaiman i sefyll yr arholiad SYLFAEN (i bobl sy wedi gorffen Unedau 1 – 60 o'r cwrs Wlpan). Y peth anhygoel ydy bod rhai wedi teithio o Drelew – digon pell – rhai o Gomodoro Rivadavia, rhai o Mendoza ac hyd yn oed rhai o La Plata (heb anhgofio y ddwy ddaeth yr holl ffordd o Drevelin!). Cyfanswm o tua 366 awr o deithio i sefyll arholiad Cymraeg! Os ydych chi'n darllen Llais yr Andes yn eich cartref yng Nghymru bydd rhaid i chi edrych ar fap yr Ariannin os ydych chi eisiau gweld pa mor bell teithion nhw.

Mae'r Ariannin yn wlad fawr iawn gyda dros 5,000 kilometr o'r gogledd i'r de. Mae talaith Chubut lle setlodd y Cymry cyntaf yn fwy na thair gwaith arwynebedd Cymru! Yn gyntaf cysylltodd Dario Trombotto o Mendoza i weld os oedd yn bosib iddo fo, a'i wraig, sy'n dod yn wreiddiol o'r Almaen, a ffrind arall gofrestru ac maen nhw'n byw yn Mendoza 1,500 km i ffwrdd o Esquel, o leiaf 17 awr mewn car! Wedyn cysylltodd Grisel Roberts o ddinas La Plata ger Buenos Aires i ddweud bod ei myfyrwyr hi eisiau sefyll arholiad! Mae La Plata yn 1,875 km o Esquel, rhyw 21 awr mewn car – a does dim car gan y myfyrwyr felly daethon nhw ar y bws! Pan gysylltodd Luis Owen o Gomodoro Rivadavia (575 km o Esquel) a merched Trelew (603km) doedd dim syndod!

Roedd merched Comodoro wedi teithio dros nos ar y bws, wedi cyrraedd am 6 o'r gloch y bore, cael brecwast ac wedyn sefyll yr arholiad cyn aros am y bws am 9.00 y nos i fynd yn ôl i Gomodoro y noson honno. Faint o ddysgwyr Cymru fyddai'n fodlon gwneud hynny tybed?

Felly dyma fyfyrwyr Patagonia yn dangos pa mor frwdfrydig ydyn nhw dros ddysgu yr iaith Gymraeg, iaith Cymru ac i drefnydd y Ganolfan sydd yn gweithio ar ran y Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa roedd yn brofiad hyfryd. Llongyfarchiadau i bawb ar eu gwaith caled, diolch i'r tiwtoriaid am eu gwaith paratoi a gobeithio bydd yr arholwyr yn cytuno bod chi'n haeddu pasio, bob un ohonoch chi!

*Clare Vaughan*

# Eisteddfod Puerta del Sol



P'nawn dydd Mawrth 2ail o Orffennaf, ynghanol glaw trwm, cawsom fwynhau Eisteddfod y Plant yn Nhrevelin. Fe ddechreuodd yr arbrofion adrodd Sbaeneg a Saesneg, ar fore ddydd Llun, am wyth o'r gloch y bore tan bump y pnawn gan  newid y lleoliad rhwng y tair ysgol oedd yn cystadlu. Yr oedd dros 150 o blant yn yr adroddiad 'Quien'! Llawer o hwyl yn gweld ambell un yn troi botymau a cuddio ei ddwylo yn ei bocedi…



Cawsom ganu'r anthem genedlaethol i ddechre ac  ar ôl i María Esther, y brif athrawes, estyn gair o groeso, fe ddechreuodd y cystadlu brwd.

Fe wnaeth plant Ysgol Gymraeg Esquel gystadlu mewn cân ysgafn dan arweiniad Glenda a disgyblion Ysgol Trevelin adrodd a dawnsio gwerin wedi eu hyfforddi gan Jessica.

Pan ddaeth amser i gadeirio'r beirdd,  un hyd 12 a'r llall hyd 20 oed, hyfryd oedd gweld Lara Green yn cael ei thywys i'r llwyfan gynta a wedyn Maite Jaeger Ingram, disgynyddion i ddwy ffrind oedd yn byw mewn ffermydd cyfagos, Vera ac Irene!

Diweddglo hyfryd i ddau ddiwrnod prysur, ond yn gyfle i gwrdd â llawer o ffrindiau. Edrych ymlaen yn awr i weld y rhai bach yma yn cystadlu yn Eisteddfod Trevelin, mis Tachwedd nesa!!

LLONGYFARCHIADAU GWRESOG I BAWB A WNAETH GYSTADLU.

*Alwen Green*

## Gair o Brifysgol Caerdydd .............




"Helo! ´Dyn ni'n mwynhau'r haul, ond mae'n ofnadwy o boeth yn y dosbarth yn y prynhawn! Mae'r cwrs yn wych ac mae Caerdydd yn lle bendigedig!" *Estela ac Ivana.*

*Dw i'n cael amser arbennig o dda yn Nghaerdydd, eleni mae'r haf yn boeth a ni'n mwynhau'r haul bron pob dydd. Dw i'n neud y cwrs gyda Virginia o Drelew a Cinthia o'r Gaiman, a ni'n byw yn yr un ardal, felly dyn ni'n gallu cerdded i'r Brifysgol trwy barc y Castell! Ffantastig. Dyn ni'n ffrindiau mawr gyda Gethin, Cymro, a Swpashai, o Wlad Thai. Amser egwyl maen nhw'n cael coffi a ni'n cael mate, ond ni i gyd yn siarad a chael hwyl gyda'n gilydd. I ddathlu Gwyl y Glaniad bydda i'n mynd gyda'r merched o'r Dyffryn, Estela ac Ivana i Aberteifi. Gobeithio bydd eich dathliadau yn llwyddianus hefyd! Cofion cynnes, Sara*

## Cofion cynnes o Gymru



Ddylwn i ddim sôn wrthoch chi am y tywydd rydym yn ei fwynhau yma yng Nghymru, a chithau yng nghanol eich gaeaf. Gwelais i lun ar Facebook gan Clare yr wythnos o'r blaen, o Drevelin rewllyd wedi ei hamgylchynu gan eira. Ond ta waeth rwyf am ddweud wrthoch chi am ein tywydd. Mae hi'n chwilboeth yma ac wedi bod ers pythefnos. Nid oes golwg o gwbl chwaith bod y tywydd hwn am newid. Mae hi wedi bod yn 30C mewn sawl man yma yn ddiweddar. Mae'n ddrwg gen i orfod dweud hynny wrthych, ond fel dych chi'n gwybod fedran ni ddim peidio â sôn am y tywydd yng Nghymru fach! Rydym yn fawr obeithio y bydd y tywydd hwn yn para hyd at yr Eisteddfod Genedlaethol.

A phwy dych chi'n meddwl y gwelais i yn mwynhau'r haul yng Nghaerdydd echdoe? Sara Borda Green! Roedd hi'n braf iawn ei gweld hi a'r ddwy arall o'r Wladfa a gweld eu bod wedi ymgartefu ac yn mwynhau eu hunain (ac yn gweithio'n galed wrth gwrs!) Roedd eu gweld eto'n dod ag atgofion melys iawn yn ôl i mi o'r cyfnod braf iawn gwnes i ei dreulio yn eich plith fis Mawrth diwetha. Dim bod angen f'atgoffa cofiwch, rwyf wedi bod yn gwneud sawl cyflwyniad am y daith i ddosbarthiadau ac i ysgolion haf y gogledd. Ymateb pawb i'r cyflwyniad yw ' rhaid i ni fynd yna ein hunain!' Rwy'n hiraethu fawr am y Wladfa er mai am gyfnod cymharol fyr bues i yno. Anghofia i fyth mo'ch croeso a'ch caredigrwydd tuag ataf, a neb mwy wrth gwrs na Lizzie Lloyd fuodd yn gofalu'n famol amdana i gydol yr amser. Pan soniais i yn y swyddfa mod i wedi bod yn aros efo Lizzie yn Esquel, dyma Siwan Hywel, un o'm cydweithwyr, yn gofyn 'Am Anti Lizzie wyt ti'n sôn?'. Ia, roedd Anti Lizzie wedi bod yn ymweld â Siwan a'i theulu yn Ysbyty Ifan rhai blynyddoedd yn ôl. Byd bach ynde? Dyna ni am rwan, rwy'n mynd yn ôl i'r heulwen gynnes. Tan tro Nesa!

*Haydn Hughes*


Atebion:

1. Powys
2. Conwy
3. Aberystwyth
4. Arfordir Penfro, Bannau Brycheiniog ac Eryri
5. Ar ddydd Gwener



## O'r dosbarthiadau....................

**Ffrindiau – Sandra Soto de Mayor, Cwrs Uwch Esquel**



Dw i wedi rhannu llawer o brofiadau gyda fy ffrindiau –pethau hapus fel dathliadau, pen-blwyddi ac yn y blaen yn ogystal â phethau tristach fel hiraeth, colli rhywun, y pethau sy'n digwydd mewn bywyd.

Pan ro'n i'n blentyn, ro'n i'n chwarae gyda fy ffrindiau. Roedden ni'n dringo coed, chwarae tŷ doli, marchogaeth ar ffarm fy modryb, chwarae yn yr eira a mwynhau drwy'r amser. Roedden ni'n helpu'n gilydd gyda'n gwaith ysgol hefyd.

Erbyn heddiw, dw i ddim yn hoff o weithio yn y siop hufen iâ yn yr haf achos does dim gymaint o amser gyda fi i dreulio gyda fy ffrindiau. Ond dw i wedi ymddeol fel athrawes erbyn hyn felly o leiaf mae tipyn bach mwy o amser hamdden gyda fi!

**Pum digwyddiad pwysig yn fy mywyd – Diana Nichols, Cwrs Uwch Esquel**

Dw i'n cael fy atgoffa o lawer o ddigwyddiadau pwysig yn fy mywyd:

1. Fy mhriodas. Ces i bartner da i fy mywyd wrth ymyl Buby. Mae hyn yn arbennig o dda i fi. 'Dyn ni gyda'n gilydd ers pedwar deg pump blynedd. Pan roedden ni wedi priodi, ro'n i'n ifanc iawn. Aethon ni i fyw i'n tŷ – ysgol hanesyddol rhif 18 Afon Corintos, gerllaw Trevelin. Roedd fy ngŵr yn gweithio fel athro yn yr ysgol a ro'n i'n teithio i weithio mewn ysgol arall.
2. Peth arall pwysig oedd genedigaeth fy merch a fy meibion. Ar y pryd hwnnw, ro'n ni'n dod i fyw i Esquel.
3. Wedyn, roedd dyfodiad fy wyrion yn rhywbeth pwysig hefyd.
4. Y digwyddiad pwysig yn fy mywyd nawr ydy dosbarthiadau cyntaf chwarae'r ffidil dw i'n eu cael yn Nhrevelin unwaith yr wythnos. A fy nychweliad i'r côr. Dw i'n mwynhau yn fawr bob gweithgaredd cerddorol.
5. Wedyn, mae dechrau cwrs Uwch Cymraeg 'yn gyfan' eleni yn beth pwysig i fi hefyd. Dw i'n hapus. Dw i eisiau dysgu siarad Cymraeg yn dda.

### Wlpan 1—Trevelin

*Carlos dw i.* Dw i'n hoffi cael gwersi Cymraeg . Dw i'n mynd i'r Ysgol Gymraeg yn y bore. Mae siop gyda fi yn Nhrevelin o'r enw 'Blanco de Gales'. Dyn ni'n gwerthu blancedi a dillad gwely. Mae gwraig gyda fi o'r enw Susana ac mae mab gyda fi. Aaron ydy o. Dw i, fy ngwraig a fy mab yn dysgu Cymraeg yn Ysgol yr Andes, Trevelin.



*Ana dw i.* Dw i'n byw yn Nhrevelin. Dw i'n 36 oed. Dw i'n athrawes a dw i'n gweithio mewn ysgol uwchradd yn y bore. Mae fy mhen blwydd ar yr wythfed ar hugain o Dachwedd. Does dim priod gyda fi. Mae teulu gyda fi. Mae Mam wedi ymddeol. Does dim tad gyda fi. Mae brawd gyda fi o'r enw Pablo. Mae o'n byw yn Lincoln, Buenos Aires. Dw i'n hoffi nofio a darllen ond dw i ddim yn hoffi smwddio achos does dim amynedd gyda fi!

# Cornel y Plant

**Cylch Ti a Fi**

Hyfryd yw gweld cynifer o blant bach yn dod gyda'u rhieni i'r Cylch Ti a Fi yn Esquel. Mae'n cynnig cyfle i rieni/gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'r plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig ac mae'n rhoi cyfle i'r plant fwynhau chwarae gyda phob math o deganau, canu a gwrando ar storiau, coginio, peintio a gwneud ffrindiau bach newydd! Mae croeso i unrhywun ymuno â'n criw bach hapus ni!





**Skype**

Cafodd Imanol a Jere o ddosbarth Wlpan 1 Esquel gyfle i sgwrsio â chriw o fechgyn Ysgol Gyfun y Strade, Llanelli ar Skype yn ddiweddar. Roedd Eluned yn athrawes Ffrangeg a Sbaeneg i Jacob Morris, Luke Thomas a Cory Owens yn y Strade y llynedd, ac felly roedd hwn yn gyfle gwych i fechgyn Esquel ymarfer eu Cymraeg, i fois Llanelli ymarfer eu Sbaeneg ac i Eluned ddal fyny â newyddion yr ysgol! Maen nhw'n edrych mlaen i sgwrsio gyda'i gilydd eto cyn bo hir!





Dosbarth Cymraeg Diana Jenkins yn Ysgol 24 Esquel






Dosbarth Cymraeg Jessica Jones yn Ysgol 166 Trevelin



Dathlu diwedd hanner cyntaf y flwyddyn academaidd yn Nhrevelin ac Esquel!



Mae côr plant Esquel yn ymarfer bob dydd Iau am 18 tan 19 o'r gloch. Mae wyth o blant yn dod rhwng 3 a 13 blwydd oed. Dyn ni´n gael lot o hwyl, dyn ni´n canu, chwarae efo caneuon a dawnsio. Dyn ni wedi dysgu caneuon plant a chaneuon gwerin o Gymru fel 'Robin Ddiog' ac 'Ar lan y môr'. Fuon ni'n paratoi 'repertoire' ar gyfer Eisteddfod Escolar Trevelin. Ro'n ni´n cystadlu fel côr plant, unawd ac unawd agored. Croeso i bob plentyn sydd eisiau dod i ganu.


*Glenda Powell*

# Taith yr Urdd i Batagonia 2013

| | |
|---|---|
| Alwen | Messmiah |
| Bethan Sian | Hale |
| Catrin Angharad | Darlington |
| Cerys Lois | Jones |
| Elin Haf | Tomos |
| Erin Gwyn | Rossington |
| Erin | Ynyr |
| Guto Dafydd | Jones |
| Gwen Angharad | Thomas |
| Gwenno Erin | Ywain |
| Huw | Owen |
| Lisa Erin | Owen |
| Llio Fflur | Davies |
| Lois Angharad | Evans |
| Lois Clwyd | Hughes |
| Lora Angharad | Lewis |
| Marged Gwenllian | Edwards |
| Owain Arwel Glyn | Hughes |
| Steffan Lloyd | Owen |
| Tomos | Gwyn |
| Undeg | Steffan |
| | |
| Eryl Gareth | Williams |
| Branwen Haf | Williams |
| Ceri | Phillips |



# Croesair




**Cliwiau**

**Ar Draws**

1 Planhigyn Pren (6)
4 Lle i gadw bwyd yn iach (6)
6 Ateb cadarnhaol (2)
7 Bachgen Mawr (3)
8 Hanesyn diweddar (5)

**I Lawr**

1 Pair i ferwi bwyd (6)
2 Geneth oer (4)
3 Gall hedfan yn uchel (6)
5 Hapus (3)
7 Yn eiddo i ti (2)

**Dyddiadur**

Dydd Sadwrn, Awst 3ydd—Eisteddfod Porth Madryn

Bore Dydd Sadwrn, Awst 10fed—Sbort Sadwrn i blant Esquel a Threvelin yn y Ganolfan yn Esquel.

Dydd Sul, Awst 11eg—Oedfa yng Nghapel Seion Esquel am 5 o'r gloch. Dewch â rhywbeth melys gyda chi os gwelwch yn dda er mwyn i ni gael sgwrs a the gyda'n gilydd ar ôl y gwasanaeth.

*Bydd Catrin Thomas o Abertawe yn dod i wirfoddoli yn yr Andes tan y 15fed o Awst. Darllenwch mwy amdani ar dudalen 4.*

# Cornel Coginio



## Lolipops siocled

Cynhwysion:

400g o gacennau 'brownies' neu sbwng siocled heb eisin

100g o siocled tywyll/llaeth wedi toddi


200g o siocled gwyn wedi'i dorri'n ddarnau.........ac hefyd 2kg o reis i ddal y lolipops tra'u bod yn sychu a tua 20 o brennau lolipop.

Dull—Rhowch y reis amrwd mewn tun cacen dwfn. Malwch y cacennau i mewn i brosesydd bwyd a rhowch y siocled wedi toddi ar ei ben. Cymysgwch nes ei fod wedi'i gyfuno'n dda. Cymerwch lwy fwrdd o'r gymysgedd ar y tro a'i rolio i mewn i siâp ŵy rhwng eich dwylo. Yn ofalus, bwydwch bren lolipop i mewn i bob un tan ei fod tua hanner ffordd, a'u rhoi yn y reis i sefyll, a rhowch yn yr oergell am 2-3 awr nes eu bod yn galed iawn. Toddwch y siocled gwyn yn ofalus mewn powlen dros sosban o ddŵr sy'n mudferwi'n ysgafn, yna gadewch i'r siocled oeri a thewhau am 1-2 munud. Un ar y tro, rhowch y lolipops yn y siocled gwyn i'w gorchuddio, yna gadewch i'r gweddill ddiferu yn ôl i mewn i'r bowlen siocled. Rhowch y lolipops i sefyll yn y tun cacen sy'n llawn reis. Dipiwch y lolipops mewn gliter bwytadwy neu beth bynnag sy'n cymryd eich ffansi ac oerwch nhw eto am 1-2 awr nes bod y siocled wedi caledu.

Mwynhewch!

## Geirfa

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dymuno'n dda | Desear lo mejor | Botymau | Botones | Dylunio | Diseñar |
| Cyplau | Parejas | Chwilboeth | Un color insoportable | Sboner | Novio |
| Rhoi'r byd yn ei le | Poner el mundo en su lugar | Atgofion melys | Dulces recuerdos | | |
| Dawn | Don | Hiraeth | Nostalgia | | |
| Breuddwyd | Sueño | Wyrion | Nietos | | |
| Mynychu | Asistir | Caneuon gwerin | Canciones folclóricas | | |



Atebion 'Pwy di pwy' (rhifyn mis Mai):

1. Alwen Green
2. Amanda Evans
3. Isaías Grandis
4. Mary a Charlie Green
5. Elvira Roberts
6. Esther Valmai Evans Hughes
7. Lizzie Lloyd
8. Marina Cid
9. Sara ac Enrique Borda Green

